Y Broga Balch

Gostyngeiddrwydd / Goddefgarwch

Wrth ymyl y llyn yng ngwaelod y cae roedd Broga'n byw. Yno byddai'n crawcian ac yn galw ar ei ffrindiau yn y llyn. Roedd ei ffrinidau yn y llyn yn galw'n ôl ar y Broga. Ond doedd pawb oedd yn byw yn llyn ddim yn hoff iawn o Broga. Felly aeth i fyw at yr anifeiliaid oedd yn byw ar y fferm. Bob dydd a nos byddai Broga wrth ei fodd yn canmol ei hun. Bob dydd byddai'n dweud yr un peth wrth y gath goch, a'r ci defaid a'r mochyn tew a bob nos byddai'n dweud yr un peth wrthyn nhw.

"Mi fedra i neidio yn uwch o lawer na fedri di," meddai wrth y mochyn tew. "Efallai'n wir" meddai'r mochyn tew wrtho, "ond does dim rhaid i ti fy atgoffa o hynny bob dydd a nos."

"Mi fedra i ladd mwy o bryfed na fedri di," meddai wrth y ci defiad. "Efallai'n wir", meddai'r ci defaid, "ond does dim rhaid i ti ddangos dy hun fel bob dydd a nos."

"Mi fedra i nofio yn well o lawer na ti," meddai'r broga wrth y gath goch.

"Rwy'n gywbod y medri di," meddai'r gath goch, "ond mae'n well i ti beidio canmol dy hun fel hyn, neu mi fyddi'n siŵr o fynd i drwbwl ryw ddydd."

Arhosodd Broga am funud i feddwl. Beth oedd y gath goch yn ei feddwl tybed?

"Wfft â nhw i gyd - y mochyn tew, y ci defaid a'r gath goch", a ffwrdd â fo i'r caeau. Pwy oedd yn gorwedd yn ymyl y clawdd ond y fuwch ddu. Yno roedd hi'n cnoi ei chil yn braf. Roedd wedi bod yn cnoi ei chil drwy'r bore. Cododd y fuwch ar ei thraed pan welodd Broga yn neidio tuag ati.

Doedd Broga ddim yn gwybod llawer am wartheg.

Doedd o ddim yn gwybod os oedd gwartheg yn neidio'n uchel.

Doedd o ddim yn gwybod os oedd gwartheg yn bwyta pryfed.

Doedd o ddim yn gwybod os oedd y gwartheg yn gallu nofio hyd yn oed.

Felly meddyliodd yn galed. Ac meddai wrth y fuwch, "Mi fedra i fy ngwneud fy hun yn fwy na thi."
"Efallai'n wir," meddai'r fuwch gan ddal ati i gnoi ei chil, "ond mae'n rhaid i mi gael gweld hynny'n digwydd o flaen fy llygaid."
Dechreuodd chwythu aer i mewn i'w gorff. Safodd ar flaenau ei draed.
"Ond dwyt ti ddim digon mawr" meddai'r fuwch wrtho.
Cymerodd y broga fwy o aer i mewn i'w gorff. Roedd wedi chwyddo dipyn mwy erbyn hyn. Safodd unwaith eto ar flaenau'i draed.
"Ond dwyt ti ddim digon mawr" meddai'r fuwch gan edrych i lawr ar y broga.
Roedd yntau'n benderfynol o lwyddo. Un felly oedd y Broga.
Chwythodd fwy o aer i mewn i'w gorff. Roedd yn dew, dew erbyn hyn.
"Na, dwyt ti ddim yn ddigon mawr eto fyth," meddai'r fuwch wrtho.
Dyma un chwythiad arall i mewn i gorff y broga. Roedd o'n benderfynol o wneud ei hun yn fawr, fawr.
Byrstiodd nes oedd yn ddarnau mân dros bob man.
Edrychodd y fuwch yn dosturiol.
"Wel dyna biti" meddai wrthi'i hun. Gorweddodd unwaith eto a dechreuodd gnoi ei chil gan feddwl am y broga balch.

Paid â gadael i mi, O Dduw, fynd yn rhy fawr i'm sgidiau. Amen.

- Sut greadur oedd y broga balch?
- Beth ddigwyddodd yn y diwedd?
- Sut oedd y fuwch yn teimlo, dybiech chi?